Hwyluso Diwylliannol: Gweithredu Ysbrydoledig

Gareth Ioan, Prif Weithredwr, Iaith Cyf.

Darlith a draddodwyd yng nghyfres Y Ffwrwm:
5 Awst, Pabell Cymdeithasau, Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005

Diolch yn fawr am y croeso ac am y cyfle i draddodi papur arall yng nghyfres darlithoedd Y Ffwrwm.

'Gweithredu Ysbrydoledig' yw'r teitl a osodwyd i'r ddarlith hon a'm bwriad y prynhawn 'ma - a'r dasg sydd wedi ei osod i mi ar ran Y Ffwrwm - yw rhannu gyda chi rhai enghreifftiau o waith datblygu cymunedol ar lawr gwlad y mae'r Ffwrwm eisiau eu dathlu a'u dal yn llewyrch haul llygad goleuni fel esiamplau o arfer da. Arfer da o ran y modd y mae gweithredwyr lleol wedi adnabod a llawn ddefnyddio'r diwylliant Cymraeg cysefin fel arf ddeinamig mewn cynlluniau datblygu cymunedol sy'n cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Yn hynny o beth mae'n ddilyniant ar y papur a draddodais yng nghynhadledd *Arian Byw* y Ffwrwm bron i ddwy flynedd nôl bellach: 'Celfyddyd ddeinamig: Cymuned Fyw'[i]. Diben y truth hwnnw oedd gosod allan rai o egwyddorion sylfaenol Y Ffwrwm fel criw o weithredwyr diwylliannol yng ngorllewin Cymru sydd wedi bod yn ymbalfalu am ffyrdd creadigol a chadarnhaol i ymateb i'r newidiadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau Cymraeg. Cystal felly i mi ddechrau yn y fan honno a rhoi crynodeb byr iawn (i chi nad oedd mor ffodus â bod yno) o seiliau egwyddorol Y Ffwrwm – cyn mynd ymlaen i roi rhai sylwadau byr ar y maes datblygu cymunedol yn gyffredinol ac yna eich arwain drwy bedair neu bum enghraifft ymarferol sydd angen eu dathlu yma heddiw. Rwy'n mawr obeithio y byddaf yn gadael digon o amser ar gyfer trafodaeth ddifyr a deallus ar ddiwedd ein cyfnod yma – os na fydda' i'n rhy faith yn ôl fy arfer!

Bydda' i ddim ar fy mhen fy hun yn y blaen yma chwaith. A dyma gyfle i mi ddiolch i Euros Lewis am fod mor barod i ffilmio sylwadau gan gynrychiolwyr ein hesiamplau. Bydd eu llun a'u llais yn ymddangos ar y sgrin yn y man.

Gadewch i mi yn gyntaf, felly, osod rhywfaint o gyd-destun i'm sylwadau a chrynodeb byr iawn o'r hyn a elwir yn 'Maniffesto Y Ffwrwm'.

Byddai aelodau Y Ffwrwm yn disgrifio eu hunain mae'n siŵr fel 'gweithredwyr neu hwyluswyr diwylliannol' lleol. Mae rhai yn gwneud hynny'n broffesiynol, eraill yn wirfoddol ond hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol Cymraeg lleol yw ein diddordeb cyffredin. Byddai rhai ohonom yn ddigon cyfforddus i arddel y term swyddogol am y math yma o waith - sef 'gweithwyr datblygu cymunedol' - ond nid pawb. Mae'r gwahaniaeth pwyslais yn y ddau derm (hwyluswyr diwylliannol a gweithwyr datblygu cymunedol) yn allweddol - fel daw i'r amlwg, gobeithio, yn y man.

Mae'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â'r maes datblygu cymunedol yn gwbl ymwybodol mai un o egwyddorion sylfaenol y maes yw ceisio gwrthweithio gormes o fewn cymdeithas, ceisio unioni'r dafol grym o blaid unigolion, grwpiau a chymunedau lleol. Mae termau fel 'ymrymuso' a 'galluogi' yn gyfarwydd iawn i ni ac rydym, fel nifer o ddisgyblaethau eraill, yn gyfforddus iawn wrth ddal mai herio agweddau a gweithredoedd gormesol a gwahaniaethol yw sail ein gwaith fel gweithwyr cymunedol, gan hybu cyfle cyfartal i bawb.

Fodd bynnag, ychydig iawn o sôn sydd am gymunedau Cymraeg yn y cyswllt yma. Rwy'n dal, yn y gymdeithas sydd ohoni, mai grŵp dan ormes yw cymunedau Cymraeg. Cymunedau sy'n parhau i frwydro'r frwydr hanesyddol dros eu bodolaeth yn erbyn grymoedd nerthol marchnadoedd rhydd, diffyg statws, defnydd cyhoeddus tila, symudoledd cynyddol a'r llifeiriant o ddiwylliant cyfryngol Eingl-Americanaidd rhyngwladol. Mae ein statws fel grŵp dan ormes yn cael ei amlygu mewn sawl dull a modd. Afraid manylu ar hynny yma, rydych chi i gyd yn gyfarwydd â'r modd y mae siaradwyr Cymraeg yn ceisio goroesi drwy'r heriau hyn - ond anaml y defnyddir y term 'grŵp dan ormes' i'n disgrifio. Mae'r fantol grym mor drwm â hynny yn ein herbyn.

Un agwedd nodedig ar y diffyg grym yma yw ein hanweledigrwydd fel siaradwyr Cymraeg, anweledigrwydd ein rhwydweithiau a'n cymunedau yn llygaid y lliaws anghyfiaith - yn unigolion o fewnfudwyr a chyd-Gymry, ie, ond yn bwysicach, yng ngweledigaethau ein cyrff cyhoeddus a'n hasiantaethau datblygu a'r llu o fudiadau gwirfoddol sy'n arddel eu hunain yn gyrff datblygu cymunedol yng ngorllewin Cymru. Yn y ddarlith flaenorol cyfeiriais at ein cyflwr fel byw yn Annwfn - byd diwylliannol amgen sy'n bodoli'n gyfochrog â'r prif ddiwylliant Eingl-Americanaidd 'normal'. Gallwch lithro i mewn ac allan o Annwfn yn hawdd iawn os gwyddoch am y rhydiau a'r gorseddau sy'n caniatáu mynediad iddo. Fel arall, fe fydd yn parhau yn anweledig a chewch chi ddim cyfle i rannu yn ei brofiadau cyfoethog.

Soniais hefyd am yr angen i'n disgwrs ni fel siaradwyr Cymraeg gamu y tu hwnt i drafod dwyieithrwydd a'r angen am ystyriaeth ddeallusol gynyddol o ddeuddiwylliannedd yn ogystal. Yn hanesyddol, rydym wedi sôn llawer am 'Yr Iaith' fel rhyw endid abstract sy'n meddu ar ryw rinweddau hudol yn ei hun. Soniais am yr angen i ddaearu trafodaeth am y Gymraeg ym mywydau ei siaradwyr a'u cymunedau - dyna unig realiti'r Gymraeg - y realiti diwylliannol hwnnw. Soniais hefyd am yr angen i'r maes datblygu cymunedol ddechrau cydnabod yr angen am weithredu sy'n ieithyddol a diwylliannol briodol pan yn gweithio â chymunedau Cymraeg a nodais hefyd y ffaith sylfaenol, amlwg i ni (ond nid i bawb yn y maes datblygu cymunedol), fod angen i'n cyrff cyhoeddus a'n hasiantaethau benodi hwyluswyr diwylliannol neu weithwyr datblygu cymunedol sy'n adnabod y pridd y maen nhw'n ceisio hau ynddo.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu aelodau'r Ffwrwm yn cynnal deialog hirfaith â'n gilydd i geisio diffinio rhai egwyddorion craidd i hwyluswyr a gweithredwyr diwylliannol. Rhanna' i hynny gyda chi yn fyr. Daliwn:

- yn yr oes gynyddol unigolyddol hon fod yna werth sylfaenol i gymdeithas a gwerth (serch yr heriau cyfredol) i'r gymuned ddaearyddol – i ymwneud â'n gilydd fel cymdogion a chydbreswylwyr o fewn bro gyffredin;
- fod yna werth sylfaenol i'r etifeddiaeth ddiwylliannol a ddaw o ymwneud â bro a chenedl – y llinyn arian byw hynny sy'n dwyn ystyron unigryw i'n profiadau fel unigolion mewn cymuned a chymundeb â'n gilydd;
- daliwn fod yna werth i'r cyd-deithio a'r cyd-chwilio am ystyr o fewn y fframwaith diwylliannol hwnnw; ac
- mae'r cyd-deithio hynny, yn sylfaenol, sy'n diffinio'r gymuned ei hun.

Wrth ein gwaith fel hwyluswyr diwylliannol rydym wedi cytuno ar bedair egwyddor sylfaenol:

- Dylid parchu pobl, yn unigolion a grwpiau, gan gydnabod eu profiad unigryw
- Dylid ennyn ac annog y gymuned i gyfranogi ymhob agwedd ar y gwaith

- Mai hyrwyddo prosesau addysgol yw craidd ein dull gwaith
- Bod rhaid cydnabod perthnasedd allweddol y cyd-destun lleol a bywyd diwylliannol y gymuned o ran themâu, cynnwys, cyfryngau a mynegiant.

Byddai gweithwyr datblygu cymunedol yn gyfarwydd a chyfforddus gyda nifer o'r pwyntiau uchod. Efallai mai yn y pwyslais mae'r gwahaniaeth rhwng gweithredwyr diwylliannol, priodol eu gweithredu, ac arferion datblygu cymunedol - sydd yn aml, yn anffodus, yn ddall i realiti diwylliannol y gymuned leol. Wrth sôn am berthnasedd allweddol y cyd-destun diwylliannol lleol rydym yn ystyried hynny yn wirionedd llythrennol - y diwylliant yw'r allwedd. Heb yr allwedd honno chewch chi ddim mynediad i rwydweithiau a chymunedau Cymraeg ac o ganlyniad does gennych chi ddim gobaith o weithredu amcanion datblygu o unrhyw fath law yn llaw â'r gymuned.

A dyma'r fan i osod rhybudd bach arall o gyd-destun. Mae ein profiad fel Ffwrwm wedi ei gyfyngu i raddau o fewn tiroedd yr hen Ddeheubarth. Y baradwys honno i'r gorllewin o'r Llwchwr, Bannau Sir Gâr, Blaenau Tywi, Llynnoedd Teifi a Phumlumon. Credaf fod hynny'n bwysig. Gwyddom am yr ardal honno a dydyn ni ddim yn haeru dealltwriaeth fanwl tu hwnt i'n profiad, er yn gobeithio, wrth reswm, y bydd eraill yn medru gweld perthnasedd iddyn nhw mewn ardaloedd eraill.

Fodd bynnag, dro yn ôl, tra'n gweithio i Gynllun Dolen yn yr ardal honno, cynllun a oedd ar y pryd yn ceisio canfod dulliau gwaith ieuenctid priodol i bontio rhwng mewnfudwyr ifanc a'u cyfoedion brodorol, cefais y cyfle i ofyn i nifer o fewnfudwyr o weithwyr ieuenctid beth yn eu tyb nhw oedd yn nodweddu'r cymunedau Cymraeg gwledig yr oedden nhw wedi symud iddyn nhw. Roedd yr atebion yn ddadlennol:

- *"You seem to know everybody"*, meddai un, *"Pembroke, Aberystwyth, Carmarthen - everywhere!"* Dyma un yr oedd â rhwydweithiau clos ac eang ein diwylliant yn ddieithr iawn iddi.

- *"There always seems to be 'practice' on at the village hall"* – meddai un arall a oedd yn cael hi'n anodd dirnad pwrpas yr holl weithgareddau celfyddydol 'ma oedd yn digwydd o fewn y gymuned yn barhaus.

- Roedd trydydd wedi rhyfeddu at y nifer a oedd yn mynychu angladdau. *"At first I thought somebody important must have died",* meddai, cyn ychwanegu*, "then I realised that everybody in the village is important*".

Rhwydweithiau eang a chymhleth, diwylliant lle mae addysg a chelfyddyd nid yn unig yn destun bri ond yn gyfryngau gweithredol, a chydnabyddiaeth ddofn o arwyddocâd y cyd-ymdeithio. Dyna yn gryno efallai rhai o brif nodweddion a chryfderau pennaf ein cymunedau Cymraeg gwledig yn y gorllewin.

Fel nodais gynnau, mae'r egwyddorion y cytunodd Y Ffwrwm arnyn nhw mewn perthynas â gweithredu diwylliannol yn gydnaws iawn ag egwyddorion cyffredinol datblygu cymunedol. Mae Datblygu Cymunedol Cymru, y corff proffesiynol Cymreig ar gyfer y maes, yn y broses o ymgynghori ar ddrafft o egwyddorion a gwerthoedd. Maen nhw'n nodi fframwaith sy'n dwyn y penawdau canlynol:

- cyfiawnder cymdeithasol,
- gweithio a dysgu gyda'n gilydd,
- cyfranogaeth a hunan benderfynu (self determination),
- cymunedau cynaliadwy,
- gwerth myfyrio ar arferion.

Maen nhw oll yn egwyddorion dilys iawn ac yn cydweddu â llawer y mae'r Ffwrwm yn ei arddel – ond nid yw'r drafft yn cydnabod y cyd-destun Cymreig a Chymraeg, nac yn cydnabod y cyd-destun diwylliannol sy'n ganolog i ddatblygu cymunedol effeithiol a phriodol, ym mha bynnag iaith.

Fel aelod, dwi wedi gyrru fy sylwadau ar hyn. Dwi'n ofni, fodd bynnag, mai cri unig fyddaf i – yr hyn sy'n fy mhryderu i ers sefydlu'r gymdeithas hon (gan eithrio sawl unigolyn amlwg sy'n gadarn iawn o ran cynnal dwyieithrwydd y gymdeithas) yw mai prin iawn yw'r gweithwyr yn y maes cynllunio iaith cymunedol sy'n ymwneud â hi. Apeliaf ar staff y mentrau iaith ac eraill yn y maes i ymuno ac ymddiddori yn Datblygu Cymunedol Cymru – dyna eich priod gymdeithas broffesiynol. A dyna'r bregeth drosodd!

Yr hyn sy'n fwy o rwystr yw'r ffaith bod y modelau o ddatblygu cymunedol a weithredu'r yn aml yng nghefn gwlad gorllewin Cymru yn gwbl estron i'r cyd-destun lleol. Modelau dinesig, ôl-ddiwydiannol ydyn nhw yn eu hanfod. Maen nhw'n aml yn canolbwyntio ar y ffisegol neu'r amgylcheddol, yn pwysleisio adnoddau brics a mortar rhagor na chryfhau seiliau'r gymuned ei hun. Maen nhw'n dwyn atebion 'goleuedig' i'r gymuned yn hytrach na hwyluso'r gymuned i ganfod ei hatebion ei hun. Anaml y cydnabyddir fod diwylliant unigryw'r gymuned yn ddim amgenach na rhyw arlliw difyr i ambell ŵyl grefftau neu ffair fwyd. Un gwendid sylfaenol yn y sefyllfa yw bod y staff datblygu cymunedol a gyflogir gan asiantaethau yn aml yn gwbl ddieithr i'w cymuned heb unrhyw ddealltwriaeth o bwy yw pwy na beth yw beth - heb ddeall yr arwyddocâd na'r hyn sy'n arwyddocaol o fewn y rhwydweithiau a'r gweithgareddau diwylliannol lleol.

Mae gan bob maes ei '*jargon*' a dydy datblygu cymunedol ddim yn eithriad. Os caf i yn fyr iawn edrych ar ambell enghraifft y credaf sy'n darlunio'r anghydnawsedd diwylliannol cyfredol yn y maes hwn. Beth am: 'regeneration', 'capacity building', 'participation' ac 'empowerment'.

<u>*Regeneration* neu Adfywio</u>: Pan ofynnodd un o aelodau'r Ffwrwm i fewnfudwr i Langrannog dro'n ôl sut oedd hi'n setlo, cafodd yr ateb, *"Fine - but nothing ever happens around here"*. Dyna esiampl eto o'r anweledigrwydd problemus yma. Mae'n siwr mai'r un anweledigrwydd neu gibddaldod diwylliannol sy'n golygu fod asiantaethau yn mynnu defnyddio term sy'n gwbl briodol o bosibl i ardal ddiwydiannol sydd newydd golli miloedd o swyddi a chraidd ei bodolaeth ddiwydiannol - ond cefn gwlad Ceredigion, Sir Gâr neu'r Preseli? Yno, fel yma mae'n siwr, rydyn ni i gyd wrthi'n rhedeg o gwmpas fel cathod ar dân o bwyllgor i ymarfer ac yn ôl. *Nothing ever happens*?!

Ond y perygl yw ein bod ni mewn perygl o lyncu'r myth. Myth sy'n cael ei daflu atom yn gyson gan y cyfryngau - fod popeth ar ben, fod hi'n anialwch yn y gorllewin, does dim pwynt cario 'mlaen. Taflwyd y myth atom ni eto'n ddiweddar ar raglen deledu yn olrhain Aelwyd CF1. Rhoddwyd yr argraff mai Aelwyd o fewnfudwyr o'r Gymru yw'r côr yma a bod yr aelodau yn rhyfeddu at fywiogrwydd diwylliannol y ddinas o'i gymharu â'r diffeithwch gwledig. Dau fyth: (a) côr a sefydlwyd gan ac er mwyn oedolion ifanc Caerdydd a Chaerffili yw CF1 a (b) am y diffeithwch gweldig, mae gan Geredigion o leiaf dri chôr ieuenectid a degau o gorau eraill i ymuno â nhw os mai canu yw'ch bryd. Mae'n cymunedau yn fyw ac yn fywiog - fel y gwyr unrhyw riant i aelod o'r Ffermwyr Ifanc. Edrychwch o'ch cwmpas. Eto - ai'r myth a orfu?

<u>*Capacity building*</u>: mae codi gallu'r gymuned eto yn medru bod yn derm nawddoglyd. Mae'n rhagdybio fod y cymunedau gwledig yn amddifad o'r galluoedd a'r sgiliau priodol i 'adfywio' eu hunain. Nid ymosod ar unrhyw fath o addysg gymunedol yw fy

mwriad o gwbl. Mae'r broses addysgol, yn eu holl ffurfiau yn gwbl ganolog fel nodwyd eisoes, ond yng nghyd-destun datblygu cymunedol adnabod a chydnabod y sgiliau sydd o fewn y gymuned eisoes yw'r gamp nid arllwys ffrydiau bywiol i biser gwag fel y cred rhai. Sonnir yn aml am *'capacity building'* fel nod a deilliant yn ei hun yn hytrach nag yn rhan o broses ymrymusol barhaus sy'n digwydd yn naturiol o fewn cymunedau brwd. Gocheler rhag tan-amcanu a dibrisio potensial ein cymunedau.

Participation: mae 'cyfranogaeth' hefyd yn bwnc sy'n codi fy ngwrychyn. Oherwydd, yn aml, yr hyn a olygir yw eu bod 'chi' i ddod aton 'nhw'. Dwy enghraifft o Geredigion. Rhai blynyddoedd yn ôl cyhoeddwyd llythyr yn y Teifiseid gan swyddog Menter Aberteifi, Almaenwr anghyfiaith os cofiaf yn iawn, yn blagardio'r Cymry lleol am beidio cyfrannu i weithgareddau'r fenter gan ein galw yn bob enw dan haul y nef - cul, mewnblyg, di-fenter, diog ac ati. Brad y llyfrau Gleision eto fyth! Nid oedd y parchus ddoethur, wrth reswm, yn gweld y trawst yn ei lygad ei hun na'i anallu i ymwneud mewn modd priodol â thalp go helaeth o'r gymuned yr oedd i'w gwasanaethu.

Mae'r WCVA newydd gyhoeddi eu cyrsiau ar gyfer yr hydref a'r gaeaf. Mae yna gwrs Cymraeg ynddo – aderyn prin iawn! Y testun, 'Cyfranogaeth' – a'r blyrb, "gan fod iaith yn medru bod yn broblem wrth gael cymuned i gyfranogi…" ac yn sôn am yr angen *"…to overcome language barriers in bilingual commnities"*. Problem i bwy? Rhwystr i bwy? Cymunedau Cymraeg? Siaradwyr Cymraeg? Choelia' i fawr! Dwi'n ofni fod datblygwyr cymunedol yn aml yn byw ar eu hynys fach eu hunain yn ceisio denu pysgod i daflu eu hunain ar eu traethau euraid yn hytrach na thynnu eu dillad a phlymio i'r heli eu hunain.

Yn olaf - *empowerment* neu ymrymuso: yn fyr, ydy, wrth gwrs, mae ymrymuso grwpiau ac unigolion yn ganolog i'r holl broses ddatblygol. Ond mae yna densiwn yma - tensiwn yn y duedd sydd gan rhai datblygwyr cymunedol i weld arwahanrwydd diwylliannol cymunedau Cymraeg fel rhywbeth elitaidd, fel y sefydliad lleol sydd angen ei herio a'i danseilio, fel anomali sydd angen ei ddwyn i mewn i 'brif-ffrwd' eu byd Eingl-ganolog. Cyndyn iawn gan rai, fel nodwyd eisoes, yw cydnabod cymunedau Cymraeg, yng ngoleuni eu terminoleg eu hunain, yn grŵp dan ormes, gormes diwylliannol a gwleidyddol hanesyddol sydd â chlorian grym wedi ei bwyso yn eu herbyn.

Ond dyna ddigon o feirniadu a negyddiaeth gen i. Canfod atebion cadarnhaol yw'r dasg y mae'r Ffwrwm wedi ei osod i'w hun. Sut felly mae mynd ati yn ddiwylliannol briodol i atgyfnerthu cymunedau Cymraeg a hwyluso eu goroesiad? Mae yna esiamplau gloyw o arfer da. Esiamplau sydd angen eu dathlu. Y drafferth ydy, dydyn nhw ddim mewn unrhyw lyfr-destun ar ddatblygu cymunedol. Oherwydd eu dillad diwylliannol dydyn nhw chwaith ddim bob amser yn cael eu hadnabod fel gweithgareddau datblygu cymunedol. Efallai bod 'hwyluso diwylliannol' yn gysyniad rhy ddieithr a niwlog i'r maes ar hyn o bryd. O'r herwydd mae'n hen bryd i ni ddechrau cofnodi a chreu ein llenyddiaeth ddatblygu ein hunain yn adnodd ar gyfer hyfforddiant a myfyrio mewn gweithredu diwylliannol a chynllunio iaith cymunedol. Hyderir fod y gyfres yma o ddarlithoedd yn cyfrannu at hynny.

Crymych

Ble ma' nhw – yr arfer da yma felly? Wel, beth am fynd gyntaf i Grymych? Beth sydd gyda ni yno? Yn fyr, o hedyn bychan iawn – penodi Warden i ddatblygu Asgell Addysg Gymunedol yn Ysgol y Preseli yng nghanol y 70au - bellach mae yno gampws cyfan ar Ysgol Ddwyieithog y Preseli sy'n cynnwys dosbarthiadau nos, pwll

nofio, canolfan hamdden, canolfan iechyd, canolfan TG, ysgol fro, theatre, sinema, a champws sy'n gartref i ddegau o gymdeithasau a gweithgareddau gan gynnwys theatr ieuenctid a phwyllgor gefeillio a Llydaw. Yn olaf (ond yn bendifaddau ddim y lleiaf) mae yno Adran ac Aelwyd yr Urdd eithriadol lwyddiannus sydd wedi bod yn ysgogydd parhaus i ddatblygiad y campws.

Does dim yn rhyfeddol yn hynny yn ei hun - yr hyn sy'n rhyfeddol yw mai'r Gymraeg yw cyfrwng a'r cyd-destun diwylliannol Cymraeg yw cyd-destun beunyddiol y campws hwn. Mae hi'n gaer o Gymreictod naturiol byrlymus a hyderus - cymaint yw'r egni a gynhyrchir gan y pwerdy hwn fel bod asiantaethau swyddogol, fel yr heddlu, yn baglu dros ei gilydd i fod yn rhan ohono.

Beth yw'r gyfrinach? Wel…

- Sgiliau addysg gymunedol a datblygu cymunedol craff - ie
- Gallu i fanteisio ar grantiau ac ati – ie

Ond yn fwy penodol…

- Priodas effeithiol iawn rhwng cefnogaeth broffesiynol a llu o wirfoddolwyr lleol
- Fframwaith diwylliannol cadarn sy'n cynhyrchu hunaniaeth, egni a brwdfrydedd lleol - cerdd, barddoniaeth, dramâu
- Elfen gyson o ddathlu – Waldo, Beca, Bois y Frenni, Mabinogi…
- Awydd parhaus i fentro i gyfryngau newydd - corau, bandiau, theatr ieuenctid, fideo, Recordiau Fflach
- Ymagwedd allblyg – teithiau tramor yr Aelwyd, Pwyllgor Gefeillio Ploveilh, cwmni cerbydau rhyngwladol Mansel Davies

Mae bwrlwm diwylliannol Crymych bron yn chwedl ond mae'n yna berygl i gymryd y chwedl yn ganiataol. Mae'r llwyddiant yn ganlyniad i oes o lafur a gweledigaeth gan yr ail Warden hwnnw, Des Davies, mewn rôl broffesiynol heb anghofio'i wraig Helen mewn llu o swyddogaethau gwirfoddol. Maen nhw, ynghyd â lliaws o wirfoddolwyr eraill a staff amrywiol ar y campws, wedi gweithio mewn partneriaeth helaeth i adeiladu'r gaer hon. Dinas a osodir ar fryn…

Mae Crymych hefyd yn enghraifft o sut y gellid llwyddo i orseddu'r diwylliant Cymraeg a'i harneisio yn rym creadigol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol - yn wir, yn aml iawn, er gwaethaf yr awdurdod lleol - gan fod y tyndra grym rhwng de a gogledd y sir yn rhan annatod o'r tensiwn creadigol sy'n gyrru'r peiriant tyrbo yma a elwir yn 'Crymych'.

Dewch i ni glywed rhai o sylwadau gan Des…

Menter Cwm Gwendraeth

Yr ail le i'w ddathlu yw Cwm Gwendraeth a gwaith y fenter iaith leol yno, Menter Cwm Gwendraeth.

Dyma enghraifft lai sefydliadol efallai - mudiad gwirfoddol i bob pwrpas ond mudiad gwirfoddol, menter iaith, sydd wedi taflu ei hun i ganol y byd datblygu cymunedol ar sawl ffrynt: datblygu economaidd, hybu iechyd, addysg gymunedol a gwaith ieuenctid i enwi rhai meysydd yn unig. Mae'r fenter yn gwybod na ellir hyrwyddo iaith mewn gwagle ac mae wedi gosod y Gymraeg yn gadarn yng nghanol gofynion eraill y cwm. Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'r gwead datblygu lleol.

Pan yn gweithio yng Nghross Hands ar ddechrau'r nawdegau fe gefais y fraint o roi benthyg fy nesg a'm hystafell i'r fenter newydd yn eu tair wythnos gyntaf o fodolaeth. Bellach mae ganddyn nhw swyddfeydd newydd swanc ym Mhontyberem sy'n cynnwys canolfan TG a chanolfan addysg gymunedol yn ogystal â chaffi poblogaidd (Caffi Cynnes, Pobl y Cwm, gynt) a siop lyfrau sy'n gwasanaethu ysgolion a chymunedau'r Cwm - Cwtsh Glöyn.

Un nodwedd o'r twf yma yw nad yw e bob amser wedi deillio o fwriadau'r fenter ei hun. Yn aml iawn mae asiantaethau swyddogol wedi dod at y fenter i ofyn iddyn nhw fod yn gyfrifol am waith arloesol neu brosiect datblygu ar eu rhan. Pam? Oherwydd bod y fenter wedi sicrhau ei bod wedi gwreiddio ei hun yn rhan ganolog o fywyd y gymuned - bywyd Cymraeg cysefin y gymuned leol. Mae hi'n gwybod pwy yw pwy a beth yw beth. Mae asiantaethau craff wedi sylweddoli bod y fenter yn bwerdy diwylliannol i'r cwm a bod hynny'n golygu fod y fenter, fel y ddiod chwedlonol honno, yn medru cyrraedd y rhannau hynny o'r gymuned na all eraill eu cyrraedd. Mae'r gwaith yn yr ysgolion, y gwaith ieuenctid, y cwisiau chwaraeon, y nosweithiau adloniant, y cyfieithu cymunedol, y dathlu a'r mwynhau wedi gosod sylfaen o ymddiriedaeth sy'n ei galluogi i gael mynediad naturiol i'r gymuned - fel partner cydradd. Eto, y gwaith diwylliannol yw'r allwedd i galon y gymuned.

Yn y cyfnod hynny yng Nhross Hands fe ofynnodd Deris Williams, Cyfarwyddwraig y fenter erbyn hyn, i mi greu slogan i'r fenter – fy nghynnig i oedd 'Her, hyder a hwyl'. Dwi ddim yn gwybod os defnyddiwyd y slogan yn helaeth ond credaf ei fod yn dal yn ddisgrifiad da o'n menter iaith gyntaf a mwyaf llwyddiannus – a'i Chyfarwyddwraig hefyd! Wele'r tâp o sylwadau Deris…

Cofiwch hefyd am yr hyn a ysgogodd y fenter? Eisteddfod – enghraifft sylfaenol o'r diwylliant Cymraeg yn ysgogi newid cadarnhaol.

Gofalaeth Eglwysi Annibynnol Godre Dyffryn Teifi

Dwi am fynd a chi nesaf i ardal rhwng CNE a Llandysul – ardal sy'n cynnwys Beulah, Drefach Felindre a'r pentrefi cyfagos – gofalaeth y Parch Dorian Samson. Mae'r gymuned grefyddol Gymraeg hefyd yn wynebu heriau sylfaenol y dyddiau hyn. Mae'r gymuned a'i cynhaliodd dros y 150 mlynedd olaf ar newid yn sylfaenol ac fe orfododd methiant yr ymgais ddiweddaraf i uno'r enwadau, 'Y Ffordd Ymlaen', lawer ohonom i ofyn cwestiynau o'r newydd i ni ein hunain am ddyfodol crefydd anghydffurfiol Gymraeg. Nid bod hynny yn uniongyrchol berthnasol i Dorian. Danto ar glywed pawb yn dweud fod crefydd ar farw, wnaeth Dorian, heb weld unrhyw un yn gwneud rhywbeth i gynnal a datblygu'r sefyllfa.

Ymateb Dorian oedd cyhoeddi nad oedd yn bwriadu pregethu am flwyddyn. Ymateb mentrus a heriol iawn o gofio'r pwys mawr a roddir ar bregethu'r Gair o fewn Anghydffurfiaeth Gymreig. Gwahoddodd gynulleidfaoedd y chwe eglwys i ymuno gydag e i greu rhaglen amgen o gyfarfodydd - cwisiau, trafodaethau, cyflwyniadau, darlithoedd, ysgolion cân ac ati. Cynhelir y cyfarfodydd yn y chwe eglwys yn eu tro a lle gynt bu llond dwrn yn dod ynghyd ceir nawr gynulleidfaoedd o dros 100 hyd at 150.

Mae cyfranogaeth wedi ei gynyddu yma felly gyda brwdfrydedd newydd. Credaf fod diffyg trosglwyddo cyfrifoldebau o genhedlaeth i genhedlaeth wedi bod yn un o rwystrau mawr ein capeli. Mae Dorian yn sôn mai un o'r anawsterau sydd ganddo ef yw canfod digon o gyfleoedd a chyfrifoldebau i bawb sydd eisiau cyfrannu yn y

bwrlwm newydd! Cynyddu cyfranogaeth ymysg yr un gymuned a wnaed serch hynny ac mae Dorian yn cyfaddef nad yw wedi llwyddo i ddwyn neb newydd i'r gorlan hyd yn hyn. Amser a ddengys efallai. Dyma gamp Dorian yn ei eiriau ei hun…

Pwerdai Ceredigion

Dwyn pobl newydd i'r gorlan oedd bwriad prosiect newydd diweddar yng Ngheredigion, Y Pwerdai. Mae'n rhedeg mewn 4 ardal dan fantell Cered a Theatr Felin-fach. Yn fyr iawn, defnyddir dathliadau lleol a gweithgareddau Gŵyl y Cyfarwydd fel dulliau o godi hyder y gymuned Gymraeg ac fel pyrth i ddwyn mewnfudwyr i sŵn y diwylliant Cymraeg lleol. Does dim amser i ymhelaethu yma heddiw - ond mae'n enghraifft o sut y gellid mynd ati i fod yn allblyg a chynhwysol ein hagweddau yn y sefyllfa sydd ohoni ac yn arfer da sydd angen ei gofnodi ymhellach. Mae erthygl ar Y Pwerdy yn y rhifyn cyfredol o Barn. Mae'r ymestyn allan yna a'r modd y mae dwyn pobl drwy rydiau Annwfn i galon y diwylliant Cymraeg angen llawer iawn mwy o sylw.

Côr Car-di-gân

Yr enghraifft olaf y prynhawn 'ma yw Côr Car-di-gân. Mae'r côr yn enghraifft wych o sut y gall un gweithgaredd diwylliannol syml a chyffredin iawn ddwyn ffrwythau cymdeithasol niferus. Sefydlwyd y côr o weithgaredd ieuenctid Theatr Felin-fach. Roedd yr arweinydd Rhian Dafydd yn allweddol yn ei sefydlu. Y bwriad oedd llanw bwlch cymdeithasol i'r rhai hynny yn eu hugeiniau oedd wedi mynd yn rhy hen i C.Ff.I. a'r Urdd a thargedwyd hefyd rhai oedd wedi dychwelyd o golegau i weithio yn yr ardal yn ogystal â chroesawu unrhyw un o'r un oedran a oedd â diddordeb ymuno.

Cymerir y canu o ddifrif and cymerir y cymdeithasu yr un mor ddifrif. Mae'r côr wedi creu a chynnal rhwydweithiau arwyddocaol newydd yng Nghanolbarth Ceredigion yn ogystal â chyfrannu i brysurdeb y calendr diwylliannol lleol a chyfrannu yn ariannol at lu o elusennau lleol. Mae trefn ddemocrataidd y côr yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan arweiniol yn ei dro ac mae eu teithiau wrth reswm yn cynnig cyfleoedd i ymestyn gorwelion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Does dim yn anarferol yn hynny efallai. Mae'r rheini'n ddeilliannau cyfarwydd i ni gyd. Yr hyn sydd ddim yn derbyn sylw o'r fath weithgaredd yw'r deilliannau eraill, y rhai mwy 'caled' o ran datblygu cymunedol. Mae Rhian yn dal fod yr hyder a'r creadigrwydd y mae'r côr wedi ei greu wedi ysgogi o leiaf chwech o aelodau'r côr i sefydlu busnesau yn y blynyddoedd diwethaf.

Dyma enghraifft syml o'r briodas gadarnhaol bosibl rhwng gweithgaredd diwylliannol a'r broses o gynnal cymunedau. Mae'n anodd iawn cael asiantaethau datblygu economaidd i wneud y cysylltiad syml yna. Mae e'n dwyllodrus o syml ond mae'r cyfan yn gwbl fwriadol a disgybledig. Y trueni yw bod rhai asiantaethau datblygu yn methu gweld ymhellach na'r sgôr cerddorol a'r crysau polo du.

Diweddglo

Dyna ni - pum enghraifft o weithredu diwylliannol effeithiol ar gyfer cynnal cymunedau Cymraeg. Pump engraifft gwahanol iawn. O gyd-destun sefydliadol lleol, mudiad gwirfoddol, gofalaeth eglwysi, dathliadau diwylliannol a chôr unigol. Dau engraifft o sut i ddefnyddio strwythurau a modelau sefydliadol at ddibenion y gymuned Gymraeg a thair engraifft o ddefnyddio diwylliant Cymraeg yn arf uniongyrchol i greu newid cymdeithasol lleol.

Gobeithio eu bod yn darlunio cred Y Ffwrwm fod yn rhaid i ni ymateb yn gadarnhaol i'n hargyfwng, ymateb yn greadigol yn wyneb her. Nid 'adfywio' ond ail greu efallai.

I'r neb a fyn weld ffyniant y Gymraeg mae cynnal ein cymunedau Cymraeg yn gwbl hanfodol wrth gwrs - dyna'r sail, dyna yw holl *raison 'd'etre* iaith, cyfrwng i gymuned fyw drwyddi yn ei holl amrywiaeth profiad. Rhestrwyd cynnal cymunedau Cymraeg yn rhan o Strategaeth Bwrdd yr Iaith dros y Gymraeg[ii]. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hynny hefyd yn Iaith Pawb, wrth gwrs gan nodi eu bod am weld cynnal y cymunedau hynny sydd â dros 70% o siaradwyr Cymraeg[iii].

Yn *'Rebuilding the Celtic Languages'*[iv] mae'r Athro Colin Williams yn tafoli'r sefyllfa yng Nghymru o ran atal shifft iaith - yn unol â model wyth cam enwog Joshua Fishman. Dros y degawdau diwethaf rydym wedi ennill llawer o dir o ran statws y Gymraeg, o ran ei chyfreithloni a'i bri cyhoeddus. Bu cynnydd hefyd ar lefel sefydliadol - byd addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus, darlledu ac ati. Mae llawer o'r bensaernïaeth sefydliadol sydd ei angen ar gyfer atal shifft iaith yn ei le. Yr eironi, wrth gwrs, yw bod y sail gymunedol yn gynyddol simsan.

Mae Colin Williams yn trafod y cyd-destun cymunedol yn ei erthygl - yn fyr o reidrwydd ac, rwy'n ofni - o ogwydd sefydliadol a swyddogaethol iawn. Mae'n trafod cynllunio iaith cymunedol bron yn llwyr yn nhermau'r mentrau iaith a chynlluniau iaith lleol y Bwrdd. Cynfas llawer rhy gyfyng i'r dasg sy'n ein hwynebu ni yn y cymunedau Cymraeg, dwi'n ofni.

Serch y mentrau iaith, serch rhai asiantaethau datblygu goleuedig yn y gorllewin, serch cynlluniau iaith lleol Bwrdd yr Iaith, dwi ddim yn credu ein bod wedi dechrau edrych ar gynllunio iaith cymunedol mewn modd proffesiynol, systematig, cyfansawdd, deallusol a bwriadus o gwbl. Dydyn ni ddim wedi datblygu fframwaith theoretaidd gyffredin o gynllunio iaith cymunedol na'r moddau i gymhwyso'r theori i arferion gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr yn y maes. Mae gwir angen i ni wneud hynny – a hynny ar fyrder.

Credaf mai cyd-destun creiddiol i unrhyw theorïau o'r fath yw'r anghyfartaledd grym rhwng cymunedau Cymraeg a'r prif-ffrwd diwylliannol Seisnig. Yn ei ragair i *'Rebuilding the Celtic Languages'* mae Joshua Fishman yn cydnabod y berthynas rym sylfaenol yma. Dywed fod y gwledydd Celtaidd yn bwysig yn fyd-eang oherwydd serch yr enillion sefydliadol diweddar fod eu cymunedau iaith yn parhau dan ormes:

> *"...they are enveloped in the soft gloves that mask but do not change the iron fists that are still there inside".*

Mae e hefyd yn cydnabod rôl ganolog y dimensiwn diwylliannol sydd mor hanfodol i weithredu priodol ac effeithiol yng ngolwg Y Ffwrwm:

> *"Most importantly of all, I have cautioned that minorities cannot merely be minaturised versions of the majorities that surround them, but must also be multilingual and multicultural carriers of a life-style that is disctictively and historically their own."*

Ein harwahanrwydd yw ein hargyfwng a'n hachubiaeth.

Yn olaf, meddai, mae'n amheus iawn a ddaw achubiaeth o'r llwybr sefydliadol nes ei bod yn rhy hwyr - nes ei bod yn ddigon 'saff' i wladwriaeth weithredu er lles iaith leiafrifol.

> *"As a result, I have counselled the supporters of threatened langugaes all over the world not to place their "trust in princes", but to primarily undertake efforts that they can implement themselves, by their own sweat, tears and resources."*

Dwi ddim am eiliad am danseilio'r ymgyrch dros Deddf Iaith newydd. Mae ei hangen ar sawl cyfrif. Fodd bynnag, nid deddf all ein cynnal. Cymunedau sy'n ein cynnal. Awn yn ôl i'r winllan leol - dyna'r lle rydyn ni wedi goroesi cyhyd a dyna'r lle y byddwn yn goroesi eto.

Diolch.

<u>Cyfeiriadaeth:</u>

[i] 'Arian Byw: ymateb positif i argyfwng cymunedau Cymraeg Cefn Gwlad', Iorwerth D (gol), Y Ffwrwm, Llanbedr Pont Steffan, 2004.
[ii] 'Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol', Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd, 2005.
[iii] 'Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog', Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd, 2004.
[iv] 'Rebuilding the Celtic Languages: Reversing Language Shift in the Celtic Countries', Diarmuid O Neill (gol.), Y Iolfa, Tal-y-bont, 2005.